OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1307

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022

**Cyflwyno hysbysiadau**

**4.**—(1) Heb ragfarnu adran 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) (cyflwyno hysbysiad gan awdurdodau lleol) ac yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson y mae paragraff 5(1D) o Atodlen 9 i'r Ddeddf yn gymwys iddo—

(a) drwy ei ddanfon â llaw i'r person;

(b) drwy ei adael ym mhriod gyfeiriad y person;

(c) drwy ei anfon i briod gyfeiriad y person drwy'r post;

(d) drwy ei anfon at y person drwy gyfathrebiad electronig.

(2) At ddibenion paragraff (1), priod gyfeiriad person yw—

(a) yn achos corff corfforedig, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;

(b) yn achos partneriaeth, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth;

(c) yn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys olaf y person.

(3) Mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddanfon â llaw o dan baragraff (1)(a)—

(a) yn achos corff corfforedig, os yw'n cael ei ddanfon â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff;

(b) yn achos partneriaeth, os yw'n cael ei ddanfon â llaw i bartner neu berson sydd â rheolaeth dros fusnes y bartneriaeth neu sy'n rheoli busnes y bartneriaeth.

(4) Pan fo unrhyw hysbysiad i'w gyflwyno i berson a bennir ym mharagraff 5(1D)(a) neu (b) o Atodlen 9 i'r Ddeddf, caniateir cyfeirio'r hysbysiad hwnnw at "perchennog" neu "meddiannydd" yr hereditament, heb enw na disgrifiad pellach.

(**1**) 1972 p. 70.